# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(45)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Tynnwyd cwestiynnau 4 a 9 yn ôl. Atebwyd cwestiwn 11 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dechreuodd yr eitem am 14.14.

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd y Cwestiwn Brys am 15.00.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn dilyn argymhellion yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2004 ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, na chymerwyd unrhyw gamau gan Lywodraeth Cymru i atal yr holl gyllid i'r corff hyd nes i welliannau sylweddol gael eu gwneud i reoli perfformiad.

### 3. Cynnig i benodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.09.

**NDM4910 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 14(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn penodi RSM Tenon yn archwilwyr cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol 2011-2012; 2012-2013; a 2013-2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Menter (Mohammad Ashgar)**

Dechreuodd yr eitem am 15.11.

**NNDM4878 Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mohammad Asghar gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 45 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Pwynt o Drefn**

Cododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth bwynt o drefn yn gwneud cais i adolygu Cofnod y Trafodion mewn cysylltiad â sylwadau Mohammad Ashgar ynghylch perthynas y Gweinidog â'r undebau. Cytunodd y Llywydd i gyfeirio at y Cofnod a byddai'n dyfarnu ynghylch a oedd y sylwadau mewn trefn os bydd angen.

**5. Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Leihau'r Risg o Strôc**

Dechreuodd yr eitem am 16.01.

**NDM4911 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei Ymchwiliad i Leihau'r Risg o Strôc a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.58.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4912 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynlluniau cyflawni wedi'u costio'n briodol ar gyfer polisïau iechyd allweddol, fel archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl dros 50 oed a darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar benwythnosau a gyda'r nos.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 34 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu "Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynlluniau cyflawni wedi'u costio'n briodol ar gyfer" a rhoi yn ei le "Yn cydnabod y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 28 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ar ôl 'pobl dros 50 oed' rhoi ', cynyddu nifer yr ymwelwyr iechyd'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 52 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r diffyg cynllunio manwl yng nghyswllt cyflawni polisïau iechyd allweddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynlluniau manwl am gwmpas, cost, cyflawni a chanlyniadau disgwyliedig polisïau iechyd allweddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4912 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu polisïau iechyd allweddol, fel archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl dros 50 oed a darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar benwythnosau a gyda'r nos.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 28 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.57.

**7. Dadl Fer**

**NDM4909 Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Cŵn Peryglus

Trafodaeth am ddulliau o wella lles cŵn a chael mwy o reolaeth drostynt.

Dechreuodd yr eitem am 18.01.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.19.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012**